

Prosiect ANG Tymor 2:

Ysgol Bro Teifi

Sut mae gwella sgiliau ysgrifennu estynedig o fewn gwersi Hanes?

Cefndir:

Mae Ysgol Bro Teifi yn ysgol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 3-19 oed sy'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Ceredigion. Agorwyd yr ysgol fel Ysgol Bro Teifi ym mis Medi 2016 yn dilyn cyfuno Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi gydag ysgolion cynradd Aberbanc, Pontsian, Coedybryn a Llandysul. Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymunedau Llandysul a'r fro. Ar hyn o bryd, mae 918 o ddisgyblion ar y gofrestr (2023), sy'n cynnwys oed y cynradd, yr uwchradd a'r chweched dosbarth. Yn ôl arolwg diweddaraf ESTYN, mae o leiaf 64% o'r disgyblion o gartrefi lle Cymraeg yw iaith yr aelwyd, gyda'r canran yn cynyddu i 79% sy'n medru'r iaith (2019). Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth Cymraeg, mae Ysgol Bro Teifi yn nghategori 3P: Cyfrwng Cymraeg Penodedig. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Gymraeg cadarn.

Rhagarweiniad:

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n ddi-baid er mwyn gwednewid addysg yng Nghymru, ac yn raddol wedi bod yn cyflwyno elfennau cyffrous i'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Nod canllawiau Cwricwlwm i Gymru yw helpu pob ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm ei hun, gan alluogi eu dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm. (Llywodraeth Cymru, 2020). Un elfen hollbwysig o fewn y cwricwlwm newydd i Gymru yw'r cyfle i ddisgyblion ddatblygu sawl sgil o fewn yr un wers. Hynny ydi, fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol, sef sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Nid oes rhaid cyflwyno'r holl sgiliau mewn un wers, er enghraifft, ond sicrhau fod ffocws canolog i un o'r tair fframwaith. Mae'r athro Emily R. Lai, yn credu bod hi'n hollbwysig cofio y gellir dehongli datblygiad mewn llawer o wahanol ffyrdd. Er enghraifft, nid oes un diffiniad a dderbynnir yn eang am y gair 'creadigrwydd', sy'n golygu bod datblygiad pob disgybl ar gyfradd a graddfa gwahanol. (Amadio, 2013).

Gellir dadlau bod rhaid i bob gwers gynnwys o leiaf un o'r tri phrif sgil yma, er mwyn sicrhau safon addysgeg dda, yn enwedig gyda sgiliau llythrennedd neu rifedd. Mae'r seicolegwr Mihaly Csikszentmihalyi, er enghraifft, yn credu fod plant yn manteisio'n enfawr drwy gyflwyno sgiliau trawsgwricwlaidd i mewn i wersi, a bod hyn yn ysgogi'r disgyblion i feddwl yn greadigol. (Barnes, 2015). Un sgil roeddwn yn awyddus i ddatblygu o fewn fy ngwersi Hanes oedd sgiliau llythrennedd y disgyblion. Yn ystod fy flwyddyn gyntaf yma ym Mro Teifi, rwyf wedi bod yn angerddol am alluogi pob disgybl i gael y cyfle i ddatblygu eu Cymraeg eu hun, beth bynnag yw eu safon gychwynnol gyda'r iaith. Yn y Gymru ddatganoledig sy'n bodoli heddiw, gwelir fod llai o blant yn gwneud defnydd o'r Gymraeg, gyda'r Cyfrifiad 2011 yn datgan bod 27% o boblogaeth Cymru wedi eu geni y tu hwnt i glawdd offa (H. Jones 2015). Mae'r ystod eang sydd yma yn weladwy iawn ar adegau o ran gallu'r iaith, ond mae'n amlwg fod pob disgybl yn mwynhau ac yn gweld y cyfle sy'n gallu codi drwy ddwyieithrwydd. Un o'r prif elfennau sydd angen datblygu o fewn y pwnc yw'r gallu i

ysgrifennu'n estynedig. Caiff rhai disgyblion eu hofni gyda'r syniad i ddechrau, ac felly yr her mewn gwirionedd yw sicrhau fod pob disgybl yn gallu derbyn y gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ysgrifennu'n estynedig. Yn y darn hwn, byddaf yn trafod y dulliau y defnyddir i gynorthwyo'r disgyblion o fewn y gwersi.

Cymraeg 2050:

Mae sicrhau fod gan y Gymraeg le blaenllaw yn y gwersi Hanes yn flaenoriaeth hollbwysig i mi, yn enwedig ar ôl i Lywodraeth Cymru ymrwymo i geisio adfywio'r iaith gyda'u targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae pryder cynyddol hyd heddiw am y targed hwn serch hynny, gyda rhai ymysg y senedd yn amheus iawn gyda chyrraedd y ffigwr yma. Prin iawn o blant ysgol sy'n ymwybodol o'r targed hwn mewn gwirionedd, a all olygu fod rhai disgyblion yn diystyru pwysigrwydd yr iaith Gymraeg o fewn eu geirfa dyddiol. Hyd yn oed o fewn athrawon cyflogedig, gwelir fod bwlch mewn technegau i ddatblygu'r Gymraeg tu allan i'w bwnc craidd. Mae athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu hyfforddi i addysgu amrywiaeth eang o bynciau, ond nid o reidrwydd i addysgu mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae rhaid cydnabod fod map ieithyddol Cymru yn amrywiol iawn felly, ac efallai na fydd un dull penodol yn gweithio bob amser ar gyfer datblygu eu sgiliau llythrennedd drwy'r Gymraeg.

Un o'r prif sgiliau roeddwn yn awyddus i ddatblygu yn ôl gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd oedd eu sgiliau llythrennedd. Roeddwn am ganolbwyntio'n benodol ar eu sgiliau ysgrifenedig gan fod llai (yn dueddol) i ysgrifennu drwy'r Gymraeg na'i siarad. (Llywodraeth Cymru, 2022). Prif bwrpas fy ngwersi o fewn Hanes fuasai sicrhau fod gan bawb y gallu i "*ddefnyddio termau technolegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc*". (Sustrans Cymru, 2021). Cafodd y cyfnodau clo effaith andwyol ar sgiliau ieithyddol plant ar draws Cymru, er enghraifft, ac mae canlyniadau cyfrifiad 2021 yn brawf o hyn. Prif bwrpas fy ngwersi yw ceisio datblygu sgiliau llythrennedd y disgyblion felly, a hynny trwy ddatblygu eu sgiliau ieithyddol ac ehangu eu geirfa Gymraeg.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae tystiolaeth gadarn i ddangos fod y defnydd o'r Gymraeg yn lleihau hefyd, yn enwedig ymhlith y rhai rhwng 3 a 15 oed. Cwyd y broblem hon gan Dr Rhianwen Daniel eisoes, lle disgrifiai fod strategaeth y Llywodraeth yn nodi ar sawl achlysur bod y Gymraeg yn '*elfen allweddol*' ac yn '*rhan annatod*' o ddiwylliant cyfoes Cymru (Daniel, 2021). Ac eto, yn ôl y cyfrifiad diweddaraf, dywed ganddi fod llai na thraean o drigolion Cymru yn gallu siarad Cymraeg. (Daniel, 2021). Mae rôl athro, beth bynnag yw eu pwnc yn allweddol felly er mwyn sicrhau bod gan bob disgybl y cyfle i ddatblygu eu hiaith.

Ysgrifennu'n Gymraeg:

Cefais adegau yn ystod fy ngwersi pan fu'r disgyblion gwestiynu pam fod gymaint o bwyslais ar y Gymraeg o fewn y gwersi Hanes. Er enghraifft, yn hytrach nac ysgrifennu'r dyddiad ar ddechrau'r wers fel rhifau (29.03.24), gwnaed ymdrech i ysgrifennu'r dyddiad allan yn llawn yn eu llyfrau. (Y nawfed ar hugain o Fawrth). Roedd hyn yn dechneg naturiol iddynt erbyn diwedd, ac yn aml roedd y disgyblion yn teimlo llwyddiant wrth orffen y wers. Roedd y cynnydd hwn, (sy'n efallai'n ymddangos yn fach mewn gwirionedd) yn dangos ystod eu gallu academiaidd yn ysgrifenedig, ac yn dangos i mi fod y disgyblion yn gallu cynyddu a gwella eu

Cymraeg gyda chymorth yr athro. I rai disgyblion gwan, roedd gwneud y cynnydd yma, a dysgu'r sgiliau sylfaenol yn ymddangos yn haws ac yn llwyddiant yn hytrach nac ysgrifennu'n estynedig. Ar ben y wybodaeth bynciol, roedd y disgyblion wedi datblygu eu sgiliau ysgrifenedig drwy'r Gymraeg, ac roedd modd asesu hyn drwy eu gwaith ysgrifenedig yn eu llyfrau. Roedd yr ystod mewn safonau ieithyddol yn gallu achosi cryn broblemau serch hynny, oherwydd ei bod hi'n anodd darganfod y ffordd ganol wrth gyflwyno sgiliau llythrennedd i'r disgyblion. Roedd rhai yn serennu heb lawer o gymorth, tra bod eraill yn ei gweld hi'n anodd ffocysu ar gael Cymraeg ramadegol gywir. Wrth fynd o gwmpas yn asesu'r dosbarth yn fy ngwersi blaenorol, roeddwn wedi sylweddoli bod rhai disgyblion yn cael trafferth gydag ysgrifennu yn y ffurf yma, cymaint nes i rai osgoi rhoi unrhyw beth yn eu llyfrau o ganlyniad. Un ffordd o geisio asesu a sicrhau fod pawb o fewn y dosbarth yn datblygu eu sgiliau llythrennedd oedd drwy dulliau gwahaniaethu. I'r rhai oedd eisiau cymorth ychwanegol, roedd taflen iaith ar gael iddynt, yn torri'r prif dechnegau a phwyntiau i lawr i'r disgyblion. Roedd cynnig sgaffald ar gyfer y disgyblion yma yn golygu fod y disgyblion yn gallu adeiladu ar eu Cymraeg drwy eu cyflymder eu hunain.

Sgaffaldu:

Mae pob disgybl yn datblygu mewn cyflymder a ffordd wahanol, ac felly mae hi'n her wirioneddol i geisio diwallu a chyrraedd gallu pob disgybl o fewn yr ystafell ddosbarth. Yn dilyn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (2015), mae'n amlwg fod heriau arbennig o ran chwyldroi addysg yng Nghymru gyda'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys dulliau asesu ffurfiannol ar gyfer hybu dysgu. (George, 2018). Mae iaith yn rhywbeth sy'n cael ei ddefnyddio gan bawb bob diwrnod, ac mae'n hollbwysig sicrhau fod bob un yn cael y cyfle i ddatblygu a gwella ar eu hiaith. Er mwyn sicrhau hyn, mae rhaid rhoi sgaffald cryf i'r disgyblion ddilyn. Mae sgaffaldu yn cael ei ddiffinio fel y cymorth a roddir yn ystod y broses ddysgu sydd wedi'i deilwra at anghenion y dysgwr, gyda'r bwriad o helpu dysgwyr i gyflawni'u nodau dysgu. Mae sgaffaldu yn dechneg llwyddiannus mewn nifer o ysgolion ledled y wlad, ond mae hefyd pryder gynyddol nid yw athrawon yn sgaffaldu i deilwra at yr ystod o anghenion gwahanol. Mewn arolwg diweddar gan gorff ESTYN, er enghraifft, datgela nad yw pob athro yn holi dysgwyr yn ddigon gofalus i sgaffaldu a datblygu'u medrau iaith a llythrennedd gystal ag y gallent. (Estyn, 2021). O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn datblygu'r gallu i ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig. Adnabuwyd yr angen am sgaffaldu penodol i ddisgyblion ysgol ar eu Cymraeg, gan gynnwys defnydd o ddeunydd a dulliau dysgu nad ydynt yn ddibynnol ar gyfieithu i'r Saesneg. Mae'r Saesneg yn ran annatod o gymdeithas erbyn heddiw hefyd, sy'n golygu mai'r her mewn gwirionedd yw sicrhau bod y Gymraeg yn cael rôl blaenllaw o fewn eu gwaith.

I lawer o ddisgyblion hefyd, roedd cynnig brawddegau agoriadol yn arf llwyddiannus iawn i ysgogi'r disgyblion i ysgrifennu'n estynedig. Byddi'r brawddegau hyn yn arwain y disgyblion i farn neu dopig penodol i drafod, ac felly'n helpu'r disgyblion gwanaf i ddewis eu llwybr personol. Mae'n bwysig nodi hefyd nad penderfynu ac ysgrifennu'r atebion iddynt oedd hyn, ond yn hytrach, dull oedd yn ysgogiad ac yn ffordd o wthio'r disgyblion gwanaf i ddechrau ar eu taith, sef y dasg o ysgrifennu'n estynedig. Roedd cynnig sgaffald yn hollbwysig hefyd o fewn gwersi blwyddyn 7 ac 8, gan nad yw'r rhain wedi eu gwahaniaethu o fewn setiau i'r

Dyniaethau eto. Ceir gymysgedd eang o ran gallu yn y dosbarthiadau yma, er enghraifft, oedd yn golygu fod brawddegau agoriadol yn allweddol i rai o'r disgyblion gwanaf. Roedd gwahaniaethu yn digwydd ym mlwyddyn 9 wrth gwrs hefyd, gan fod set 4 yn naturiol fwy dibynnol ar gymorth ysgrifenedig na set 2, er enghraifft. Y nodwedd bwysicaf yw nodi fod pob plentyn yn gallu derbyn cymorth a sgaffald, beth bynnag yw eu gallu academiaidd. Nid arwydd o dangyflawni yw sgaffald.

Hunan-asesu ac asesu cyfoedion:

Un dull asesu sydd wedi bod yn llwyddiannus ers dechrau ar fy nghyfnod yma ym Mro Teifi yw annog y disgyblion i helpu ei gilydd i wella eu sgiliau ysgrifenedig. Roeddwn yn frwd dros roi'r cyfle i'r disgyblion asesu ei gilydd, ond hefyd asesu eu hunain. Mae'n hollbwysig bod y disgyblion yn wirioneddol deall sut mae ysgrifennu a marcio gwaith ei gilydd yn hytrach na dibynnu ar yr athro, yn enwedig wrth fynd fyny i'r TGAU. Mae'n bwysig hefyd fod y disgyblion yn deall sut mae darllen darn o waith estynedig yn annibynnol. Ychydig iawn o blant sy'n darllen er mwyn pleser yn ôl arolwg diweddaraf yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol (2023), er enghraifft, sy'n golygu bod angen mireinio'r sgil yma fwyfwy o fewn y gwersi. Mae asesu cyfoedion hefyd yn galluogi'r disgyblion i gamu i mewn i esgidiau'r athro, hynny ydi, gorfodi'r disgyblion i bigo elfennau allan o waith estynedig, a phenderfynu ar gryfderau a gwendidau'r darn. Drwy weithio ar ddarnau eu cyfoedion, mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddarllen enghreifftiau o waith disgyblion eraill, ac yn derbyn gwybodaeth am ddisgwyliadau'r athro wrth osod darn estynedig. Cafodd hyn ei dreialu gyda blwyddyn 7, i bur lwyddiant hefyd. Mewn parau, roedd disgwyl i'r disgyblion ddarganfod pwyntiau cadarnhaol, a pethau i wella yng gwaith ei gilydd. Yn aml, roedd y disgyblion yn ei gweld hi'n haws darganfod pethau oedd angen gwella (tuedd cyffredinol o fewn cymdeithas mae'n debyg), ac yn ei gweld hi'n anodd i bigo llwyddiannau yn ngwaith ei gilydd. Yr her i'r mwyafrif oedd darganfod pwyntiau i dynnu allan o ddarn estynedig.

Byddai cod marcio ar gael iddynt yn rheolaidd yn y dosbarth er mwyn sicrhau fod yr asesu yn cael ei gwneud yn deg ac yn gyson. Byddai cod lliw marcio gwahanol ar gyfer pob math o farcio hefyd. Yr oedd yr athro yn asesu gwaith ysgrifenedig y disgyblion gyda beiro werdd, tra bod hunan asesu yn defnyddio beiro goch. Roedd hyn yn ddull sydyn o asesu'r disgyblion, ac yn ysgwyddo'r baich, gan roi ymdeimlad o gyfrifoldeb i'r dysgwyr. Drwy asesu cyfoedion, mae'r disgyblion yn cael cyfle i adnabod dulliau ysgrifennu da, a rhai drwg i bob pwrpas. Drwy asesu cyfoedion, roedd modd i ddisgyblion ddysgu wrth eu camgymeriadau. Er y dangoswyd bod y dull yn weddol ddibynadwy, yn gyffredinol methodd disgyblion â chydabod gwerth posibl hunan-farcio o ran adborth ac fel cyfle i'w helpu ar gyfer ysgrifennu'n estynedig, a chanfuwyd y broses achosi cryn straen i lawer o ddisgyblion. (Mires, 2012). Yn enwedig gyda rhai dosbarthiadau, roedd rhaid esbonio'n dryloyw cam wrth gam ar y broses marcio. Er enghraifft, wrth i'r disgyblion asesu gwaith ei gilydd roedd amrywiaeth enfawr wrth adael sylwadau ar ddiwedd y gwaith. Byddai rhai disgyblion yn ymateb gyda thic ac un gair, tra bod eraill yn ysgrifennu chwarter tudalen. Os ydw i'n defnyddio'r dechneg asesu, mae rhaid sicrhau fod cysondeb yn y marcio, neu mae'n achosi fwy o ddrwg neu o dda. Cyn mynd ati i ysgrifennu'r darn, gofynnais i'r disgyblion esbonio beth sy'n gwneud traethawd da.

Cynllunio ac ail-ddrafftio:

Er mwyn gwneud yn siŵr fod gwaith ysgrifenedig y disgyblion i'r safon orau posib, mae angen sicrhau fod cynllun manwl wedi'i osod allan cyn i'r disgyblion ddechrau. Proses adeiladol ydi ysgrifennu'n estynedig mewn gwirionedd. Nid oes disgwyl iddynt ysgrifennu'n estynedig heb baratoi na gwella ar eu gwaith. Er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn gallu gwneud hyn i'r radd flaenaf, cafwyd cyfle iddynt ail-ddrafftio eu darnau estynedig; wedi'u marcio gen i'n fanwl. Mae'n annhebygol y bydd disgybl yn cynhyrchu'r fersiwn orau ar y cynnig cyntaf, ac felly gall ail-ddrafftio roi ail-gynnig i ddisgyblion berffeithio eu gwaith. Un rheswm dros ail-ddrafftio yn bod hyn yn caniatáu'r disgyblion dorri'r dasg i lawr a'i gwneud yn haws ei rheoli. Roedd llawer o'r disgyblion yn hoffi'r syniad o dderbyn cynllun i ddilyn er mwyn sicrhau eu bod yn mynd ar y trywydd cywir. Mae gallu gwneud hyn yn torri'r gwaith i ddarnau llai. Yn debyg i jig-so, mae'r canlyniad yn debyg iawn i bawb, ond mae'r ffordd y mae'r disgybl yn dewis yn amrywio, yn unol a'u gallu personol nhw. Mae'r disgyblion hefyd yn gallu gwella a dysgu ar eu camgymeriadau. Drwy farcio eu gwaith unwaith, mae'r disgyblion yn derbyn yr arf ac yr anogaeth sydd angen arnynt i brofi ac i ddangos bod modd gwella ar eu darnau estynedig. Caiff llawer yr ymdeimlad o werth yn y gwaith, sy'n beth braf cael gweld hefyd fel athro newydd gymhwyso.

Datblygu geirfa:

Pan fu disgybl yn ateb cwestiwn ar lafar yn ystod fy ngwers, roedd tueddiad i rai ymateb gyda bratiaith hefyd, hynny ydi, geiriau Saesneg a Chymraeg wedi'u cymysgu. Yn hytrach na barnu ateb, buaswn yn agor y llawr i syniadau gwell gan y disgyblion eraill er mwyn hyrwyddo Cymraeg safonol. Er enghraifft, yn hytrach na derbyn *bribieio* (bratiaith o'r gair Saesneg bribe), aethom o gwmpas y dosbarth yn chwilio am eiriau gwell i roi ar y bwrdd rhyngweithiol. Daethom ar draws llwgrwobrwyo (y ffurf gywir), ond hefyd ansoddeiriau megis bygwth, talu i ffwrdd a chymhelliad. Roedd gallu cynnig mwy nag un ateb neu enghraifft yn helpu'r disgyblion i feddwl yn feirniadol ac yn fwy eang ar eu geirfa ysgrifenedig. Sylwch hefyd mai'r disgyblion gwnaeth y gwaith. Llwyddodd y disgyblion i feddwl am air gwell, safonol drwy'r Gymraeg drwy weithio gyda'i gilydd. Yn hytrach na disgwyl i mi gamu mewn a bwydo gwybodaeth iddynt, llwyddodd y disgyblion yn yr enghraifft yma i ddarganfod atebion eraill yn annibynnol. Roedd yr ymdeimlad o falchder yn codi hyder y disgyblion wrth geisio ysgrifennu'n estynedig a defnyddio geirfa safonol. Fel athro wrth arsylwi'r broses yma'n digwydd, rwyf wedi dysgu bod disgyblion yn manteisio wrth gael eu herio'n annibynnol. Roedd y disgyblion yn wirioneddol yn mwynhau gorfod meddwl heb gymorth yr athro, ac roedd hyn yn syndod i mi. Drwy hyn, llwyddais i gyflwyno elfennau o'r cwricwlwm newydd i Gymru i fy ngwersi gyda phedwar diben y cwricwlwm.

Un o'r prif ddibenion hyn oedd bod y disgyblion "yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau". (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae hyn yn wir, gan iddynt herio'i gilydd yn gyson i ddefnyddio'r Gymraeg yn gywir o fewn y dosbarth. Mae rhoi'r cyfle i ddisgyblion trafod a dod i farn ar lafar yn rhywbeth daeth yn fwyfwy gyson wrth imi barhau i ddysgu ym Mro Teifi. Drwy hynny gwelais gynnydd yn eu hyder wrth eu hasesu drwy fynd o gwmpas y dosbarth. Mae'r cwricwlwm ei hun yn nodi pwysigrwydd hyn hefyd, drwy ddweud dylai'r disgyblion allu

“cyfathrebu’n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy’r Gymraeg a’r Saesneg”. (Llywodraeth Cymru, 2020). Erbyn diwedd y tymor, roedd y disgyblion yn gwneud pwynt i feddwl am atebion drwy’r Gymraeg dros y Saesneg. Efallai i fy mhlesio, neu efallai oherwydd bod datblygiad yn eu hyder a’u geirfa. Yn gynnil felly, cyflwynais y disgyblion i dermau hanesyddol newydd sy’n berthnasol wrth ddadansoddi. Yn aml hefyd, er mwyn herio’r disgyblion Mentrus a Thalentog, ac i geisio hwyluso’r dysgu, yr oeddwn yn fwriadol yn cam-ddweud geiriau ar lafar, neu’n cam-sillafu geiriau ar y bwrdd gwyn. Yn aml, roedd rhai o’r disgyblion yn gwenu ac yn dod fyny i gywiro’r camgymeriadau. Nid yn unig i gywiro, ond hefyd i gynnig esboniad o flaen y dosbarth er mwyn sicrhau nad oedd y disgyblion yn gwneud yr un camgymeriadau â mi. Y disgyblion oedd yn arwain y dysgu felly, ac y nhw oedd yn asesu ei gilydd. Mae ysgrifennu’n estynedig yn rhywbeth sy’n cael eu bwydo yn raddol dros amser gyda thechnegau gwahanol. Yn debyg i sefyllfaoedd bywyd go iawn, mae ysgrifennu’n estynedig yn sgil pwysig, ond sgil sy’n cael eu mireinio a’i siapio yn araf dros wythnosau. Nid oes disgwyl i unrhyw ddosbarth, boed yn ddosbarth sy’n gryf yn academiaidd neu ddim, i allu ysgrifennu’n estynedig yn syth. Proses adeiladol yw hi sy’n cael eu gwneud ar lafar, ond hefyd fel tasgau bach sydd o ganlyniad yn arwain at ddarn estynedig.

Casgliad:


I gloi, credaf fod amrywiaeth o ddulliau asesu wedi eu harddangos o fewn corff y traethawd, sy’n adlewyrchu’r gwaith adeiladol sy’n dod ynghyd ag ysgrifennu’n estynedig. Fel athro, mae rhaid deall a phenderfynu ar ba gyflymder mae’r arweiniad a’r dysgu yn mynd. Yn ystod y gwersi sy’n arwain at ysgrifennu’n estynedig, mae rhaid gwneud y siŵr fod y disgyblion yn deall hanfod y gwaith. Mae cynnig sgaffald a rhywbeth i’r disgyblion anelu at yn hollbwysig hefyd er mwyn sicrhau llwyddiant mewn darnau estynedig. Mae’r dulliau asesu yma nid yn unig wedi galluogi cynnydd y disgyblion, ond hefyd cynnydd yn fy hun fel athro. Mae cynllunio a chynnig sgaffald ar gyfer bob un disgybl yn bwysig felly, er mwyn sicrhau fod pawb yn cyrraedd yr un nod. Mae hyn yn wir am unrhyw daith, mae sawl ffordd i gyrraedd yr un lle, ac yn aml daw heriau i geisio ein rhwystro. Sut rydym yn deilio gyda’r heriau hyn sy’n dangos ein gwerth.

Er yr heriau sydd o fewn y sector addysg, dyma’r maes sy’n mynd a’m mryd, ac roedd hi’n bleser cael ymwneud gyda’r plant o ddydd i ddydd.

3,388 o eiriau (heb gynnwys rhestr disgrifyddion na’r llyfryddiaeth).

Tystiolaeth:


Atodiad A:



Erthygl papur newydd ar Llywelyn
ein Llyw Olaf – Blwyddyn 7

Drafft Cyntaf (Mentrus a
Thalentog).


Atodiad B:



Erthygl papur newydd ar Llywelyn
ein Llyw Olaf – Blwyddyn 7

Ail ddrafft (Mentrus a Thalentog).


Atodiad C:



Erthygl papur newydd ar
Llywelyn ein Llyw Olaf –
Blwyddyn 7


Drafft Cyntaf (Gwan gyda
brawddegau agoriadol i
gynorthwyo).

Atodiad CH:




Marcio dau ddarn estynedig. Un enghraifft gwan, un enghraifft cryf.
Sylwadau'r marciwr ar y gwaelod.

Atodiad D:




Brawddegau agoriadol i gynorthwyo – Blwyddyn 9

Atodiad DD:



Darn estynedig – Blwyddyn 9 (Set 4) [Dosbarth gwaेलod]

Atodiad E:



Darn estynedig – Blwyddyn 9 (Set 2) [Disgybl cryf].

Disgrifyddion:

Addysgeg:

Themâu Trawsgwricwlaidd: Mae themâu trawsgwricwlaidd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ac mae'r amrywiaeth yn cynnwys dysgu cymhleth sy'n dod i'r amlwg drwy fyfyrion effeithiol ar ddysgu.

Asesu: Deall a chyfleu ystod o ddibenion ac arferion ar gyfer asesu.

Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr: Mae'r athro'n hyrwyddo hunanysgogi a hunangyfeirio ymhlith dysgwyr, ac yn eu cefnogi i weithredu hynny wrth ddysgu.

Deilliannau dysgu a lles: Mae'r athro'n codi ymwybyddiaeth o sut mae profiadau dysgu a deilliannau perfformiad o safon uchel yn arwain at well dysgu a gwell synnwyr o les.

Herio a disgwyliadau: Er mwyn ysgogi'r dysgwyr i gyflawni, mae'r heriau a'r disgwyliadau y mae'r athro'n eu gosod ar lefel briodol ar gyfer yr ystod o alluoedd a nodweddion sydd ymhlith y dysgwyr.

Pedwar diben i ddysgwyr: Mae'r athro'n arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr, a dealltwriaeth o'r anghenion hynny, wrth gynllunio, paratoi ac addysgu. Hefyd, wrth wneud hyn, mae'n sicrhau mai'r pedwar diben sy'n llywio profiadau dysgu.

Dysgu proffesiynol:

Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil: Mae'r athro'n gwneud penderfyniadau addysgeg rhesymegol yn seiliedig ar waith darllen a chanfyddiadau ymchwil perthnasol.

Sgiliau Cymraeg: Mae'r athro'n gweithredu i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio ei ddealltwriaeth a'i sgiliau Cymraeg, ac i ehangu'r ddealltwriaeth honno a'r sgiliau hynny.

Arloesi:

Cynnig arbenigedd: Mae gan yr athro stoc gynyddol o dechnegau dysgu, wrth i arbenigedd gael ei ddatblygu a dechrau ffynnu, er mwyn helpu a gwella datblygiad eraill.

Gwerthuso effaith newid mewn arfer: Yr athro'n gweithredu i gael cymorth a chynghor gan gydweithwyr i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio yn yr ystafell ddosbarth fel bod modd gwerthuso a dadansoddi y ffyrdd hyn o weithio, a'u rhannu ag eraill.

Cydweithredu:

Cefnogi a datblygu eraill: Mae'r athro'n datblygu cydberthnasau o safon uchel gyda chydweithwyr er mwyn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr yn yr ysgol.

Galluogi gwelliannau: Mae enghreifftiau o welliannau o ran deilliannau i ddysgwyr ar ôl i'r athro geisio cynghor, a'i ddilyn.

Llyfryddiaeth:

- Amadio, M. (2013). A rapid assessment of curricula for general education focusing on cross-curricular themes and generic competences or skills. *Background paper for EFA Global Monitoring Report*, tt 7.
- Avramides, K., Hunter, J., Oliver, M., & Luckin, R. (2015). A method for teacher inquiry in cross-curricular projects: Lessons from a case study. *British Journal of Educational Technology*, 46(2), tt 257-258.
- Badger, E., & Thomas, B. (1991). Open-ended questions in reading. *Practical assessment, research, and evaluation*, 3(1), tt 4.
- Barnes, J. (2015). An introduction to cross-curricular learning. *The primary curriculum: A creative approach*, tt 261.
- Barnes, J., & Shirley, I. (2007). Strangely familiar: Cross-curricular and creative thinking in teacher education. *Improving Schools*, 10(2), tt 162-179.
- BBC Cymru Fyw, (2022). *Gostyngiad siaradwyr Cymraeg yn siom i Lywodraeth Cymru*. (Aethpwyd iddo 01.04.24 - <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/63874157>)
- Dallimore, E. J., Hertenstein, J. H., & Platt, M. B. (2013). Impact of cold-calling on student voluntary participation. *Journal of Management Education*, 37(3), tt 331-332.
- Daniel, R. (2021). *The impact of language on cultural identity: Implications for linguistic justice and liberal nationalism*, Doctoral dissertation, Prifysgol Caerdydd, tt 2-3.
- Dös, B., Bay, E., Aslansoy, C., Tiryaki, B., Çetin, N., & Duman, C. (2016). An Analysis of Teachers' Questioning Strategies. *Educational research and reviews*, 11(22), tt 2065-2066.
- Frey, N. et al. (2019) *All learning is social and emotional: helping students develop essential skills for the classroom and beyond*. Alexandria, Virginia, USA, tt 1-3.
- George, A., (2018) "Arweinyddiaeth yn y Sector Uwchradd Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog: Yr heriau arbennig sy'n wynebu penaethiaid a darpar- benaethiaid mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog", *Wales Journal of Education* 20(2), 138-156
- Hamblen, K. A. (1984). An art criticism questioning strategy within the framework of Bloom's taxonomy. *Studies in art education*, 26, tt 41-50.
- Joost Meijer, Marianne Elshout-Mohr & Bernadette H.A.M. van Hout-Wolters (2001). *An Instrument for the Assessment of Cross-Curricular Skills*, Educational Research and Evaluation. tt 79-107.
- Klieme, E. (2004). Assessment of cross-curricular problem-solving competencies. *Comparing learning outcomes*, tt 95-121.
- Llywodraeth Cymru (2020). *Cyflwyniad i ganllawiau Cwricwlwm i Gymru*. (Aethpwyd iddo – 21.03.24 <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cyflwyniad>)
- Llywodraeth Cymru, (2017). *Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg*. (Aethpwyd iddo – 31.03.24 <https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg>).
- Llywodraeth Cymru, (2020). *Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm*. (Aethpwyd iddo 01.04.24 - <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm>).

Llywodraeth Cymru, (2022). Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). (Aethpwyd iddo 02.04.24 - <https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html>)

Mires, G. J., Ben-David, M. F., Preece, P. E., & Smith, B. (2001). Educational benefits of student self-marking of short-answer questions. *Medical Teacher*, 23(5), 462-466.

Pica, T. (1994). Questions from the language classroom: Research perspectives. *Tesol Quarterly*, 28(1), tt 49-79.

Savage, J. (2010). *Cross-curricular teaching and learning in secondary education*. Routledge, tt 10-11.

Sustrans Cymru, (2021). *Llythrennedd a'r Daith i'r Ysgol Pecyn adnoddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth*. (Aethpwyd iddo 01.04.24 - <https://www.sustrans.org.uk/media/3075/complete-lesson-cym.pdf>).

Titley, E., Davies, A.J. and Atherton, S. (2020), '*Nid yw wedi'i fwriadu i gael ei asesu yn y ffordd rydyn ni'n asesu*': Ailfeddwl am asesu ar gyfer cymhwyster yng nghyd-destun gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. *The Curriculum Journal*, 31: tt 133-147.